# Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi

**Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd am 10:30am ar ddydd Llun 6 Hydref yn Ystafell Gynadledda 6, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd**

## Gweinidogion a oedd yn bresennol

Gweinidog y Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (Eitem 4 ar yr Agenda)
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (Eitem 5 ar yr Agenda)

## Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol

Sheila Bearcroft, TUC Cymru
Paul Byard, Cadeirydd Commerce Cymru
Iestyn Davies, Ffederasiwn Busnesau Bach
Heather Eason, Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (Arsylwr)
Rob Edwards, TUC Cymru
Ifan Glyn, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr
Robert Lloyd Griffiths, Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Richard Houdmont, Sefydliad Marchnata Siartredig
Peter Hughes, Cyngor Benthycwyr Morgeisi
Leighton Jenkins, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Arsylwr)
Mark Judd, Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (Arsylwr)
Nigel Keane, Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
David Morgan, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Martin Mansfield, TUC Cymru
Graham Morgan, Siambr Fasnach De Cymru
Keith Palmer, Siambrau Cymru
Robert Sneddon, TUC Cymru
Derek Walker, Canolfan Cydweithredol Cymru
Martin Warren, Sefydliad Syrfewyr Siartredig Cymru a Lloegr
Emma Watkins, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain

## Ymddiheuriadau

Ian Gallagher, Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Mark Harris, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Alex Jackman, Fforwm Busnesau Preifat
Lowri Morgan, Cymdeithas y Cyfreithwyr
Phil Orford, Fforwm Busnesau Preifat
Nick Payne, Y Gymdeithas Cludo Nwyddau
Huw Roberts, Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Huw Thomas, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Ben Cottam, Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig

## Ymgynghorwyr arbennig a swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol

| | | |
|---|---|---|
| Andrew Bold | | Tracey Burke |
| Kate Cassidy | (Eitem 4 ar yr Agenda) | Andrew Jeffreys |
| Glyn Jones | (Eitem 5 ar yr Agenda) | Marcella Maxwell |
| Mick McGuire | | Huw Morris |
| James Price | | Jonathan Price |
| Sara Ahmad | (Eitem 4 ar yr Agenda) | Huw Griffiths (Cofnodwr) |
| Steve Layne | (Cofnodwr) | |

## 1. Cyflwyniad a sylwadau agoriadol

1.1 Croesawodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yr aelodau i'r cyfarfod. Rhoddwyd ymddiheuriadau ar ran y Prif Weinidog a oedd yn methu bod yn y cyfarfod ac ar ran Ysgrifennydd Gwladol Cymru a oedd wedi profi oedi gyda thrafnidiaeth.

1.2 Amlinellodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y prif eitemau ar yr agenda, sef:

- prisiau ynni
- effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru
- yr economi a dangosyddion economaidd
- Ffyrdd o weithio yn y dyfodol ar gyfer Cyngor Adnewyddu'r Economi.

1.3 Eglurodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y byddai'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn ymuno â'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth am ddiwygiadau lles ac y byddai'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn ymuno â'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth am ddangosyddion economaidd.

## 2. Prisiau ynni

2.1 Cyflwynodd Paul Byard bapur Commerce Cymru *'Climate Change Policy Costs and Energy Intensive Industry'*. Eglurodd fod y papur yn gosod y materion allweddol y mae angen eu hystyried cyn Datganiad yr Hydref gan Lywodraeth y DU yn eu cyd-destun.

2.2 Nodwyd fod prisiau ynni'r DU yn cymharu'n anffafriol â gwledydd sydd mewn cystadleuaeth â hi (€71 y MegaWat awr o'i gymharu â €30 yn yr Almaen; €40 yn Ffrainc a €42 yn Sbaen). Tynnwyd sylw at y ffaith fod y sefyllfa gymharol anghystadleuol hon yn dwyn goblygiadau sylweddol i economi'r DU, gan weithredu fel rhwystr i fuddsoddi ac ailgydbwyso'r economi.

2.3 Eglurodd Rob Edwards fod costau ynni cynyddol yn broblem arbennig i'r gweithwyr y mae ef yn eu cynrychioli yn y diwydiant haearn a dur. Roedd costau cynyddol hefyd yn dwyn goblygiadau ehangach, o ystyried gwasgariad daearyddol y diwydiant gyda chyfleusterau mawr o amgylch Cymru. Cafodd Tata Steel yn Shotton a Phort Talbot, ynghyd â Celsa yng Nghaerdydd, eu henwi fel enghreifftiau o'r gwasgariad daearyddol hwn a dywedwyd fod prisiau ynni'n fygythiad i ddyfodol y sector hwn.

2.4 Siaradodd Rob Sneddon am ei brofiad fel Cadeirydd gweithgor gan y TUC ar Ddiwydiannau sy'n Defnyddio Llawer o Ynni. Mewn adroddiad diweddar, roedd y grŵp wedi nodi Celsa fel astudiaeth achos ddiddorol a oedd yn amlygu costau ynni cynyddol. Yn y cyfnod o 2008-13, roedd yr astudiaeth yn dangos bod costau llafur Celsa Caerdydd wedi'u meincnodi ar lefel a oedd 25% yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Grŵp Celsa ar y cyfan; fodd bynnag, dros yr un cyfnod, roedd eu costau ynni'n amrywio rhwng 30% a 40% yn uwch na'r cyfartaledd. Roedd y costau cynyddol hyn yn rhwystr i fuddsoddi ac i

berfformiad. Awgrymwyd y dylai cyflwyno iawndal am y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a'r Tariff Cyflenwi Trydan fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth.

2.5 Roedd y Cyngor yn gytûn bod costau ynni'n cael effaith sylweddol ar fusnesau. Caiff yr effaith hon ei dwysáu gan gostau cymharol uwch yn y DU o'i chymharu â'r gwledydd sydd mewn cystadleuaeth â hi ac mae o bosibl yn atal buddsoddwyr presennol a newydd rhag buddsoddi.

2.6 Nododd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod nifer o faterion allweddol wedi cael eu hamlygu, sy'n deilwng o ystyriaeth bellach gan Lywodraeth y DU. Awgrymodd y Gweinidog y dylai papur y Cyngor gael ei anfon ymlaen at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a bod dirprwyaeth fach o'r Cyngor yn cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghyd â Phrif Weinidog Cymru.

**GWEITHREDU:** Swyddogion i drefnu bod y Papur a gyflwynwyd i'r Cyngor sy'n dwyn y teitl *'Climate Change Policy Costs and Energy Intensive Industry'* yn cael ei rannu gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a bod cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng Prif Weinidog Cymru, dirprwyaeth o Gyngor Adnewyddu'r Economi ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod effaith prisiau ynni ar ddiwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni.

## 3. Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin

3.1 Gofynnodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i'r aelodau a oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau am y nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf.

3.2 Cyfeiriodd Martin Mansfield at baragraffau 6.4 a 6.11 yn nodiadau'r cyfarfod ar 2 Mehefin a oedd yn ymwneud â sylwadau yr oedd ef wedi'u gwneud am gaffael. Pwysleisiodd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y modd y caiff Cyfarwyddebau Caffael yr UE eu trosi'n caniatáu'r hyblygrwydd mwyaf posibl ar gyfer gweithredu gan y Llywodraeth o ran neilltuo contractau trwy gynnwys y diffiniad ehangaf bosibl o 'weithwyr difreintiedig'. Dywedodd hefyd fod datblygu cynaliadwy yn cynnwys tri maes cyfartal – datblygu economaidd a lles cymdeithasol yn ogystal ag amgylchedd cynaliadwy. Yn y cyd-destun hwn gofynnodd am ddrafftio Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel y gellir ei ddefnyddio fel cyfrwng i roi grym statudol i gyflawni polisïau caffael Llywodraeth Cymru ar lefel leol, gan gynnwys y cymalau cymdeithasol.

3.3 Nid oedd unrhyw sylwadau eraill ar y nodiadau a chamau gweithredu o gyfarfod 2 Mehefin. Gwnaeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sylw o ran sut y dylid cysylltu'r rhain â'i gilydd a chytunodd y byddai'r pwyntiau a godwyd gan Martin Mansfield yn cael eu darparu ar gyfer y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

**GWEITHREDU:** Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i gael ei hysbysu ynghylch sylwadau Martin Mansfield am drosi Cyfarwyddebau Caffael yr UE yn eu hystyr ehangaf i gwmpasu gweithwyr difreintiedig a'r cyfle i ddefnyddio Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel cyfrwng ar gyfer

caffael cynaliadwy.

## 4. Effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi bapur Llywodraeth Cymru. Pwysleisiodd y Gweinidog fod Deddf Diwygio Lles Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r newidiadau mwyaf arwyddocaol i'r gyfundrefn lles mewn 60 mlynedd. Er ei bod yn cydnabod nad yw'r gyfundrefn lles wedi'i datganoli, amlygodd y Gweinidog y ffaith bod yr effaith i Gymru'n mynd i fod yn sylweddol, gan arwain at golli tua £1 biliwn y flwyddyn yn ôl yr amcangyfrifon.

4.2 Eglurodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ei rôl fel Cadeirydd Grŵp Tasg a Gorffen, a sefydlwyd gan Brif Weinidog Cymru, sy'n asesu ac yn monitro effaith y diwygiadau lles yng Nghymru. Y farn ar y cyd yw bod diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn rhy ddwfn, yn rhy gyflym ac yn rhy fawr ac yn cael eu teimlo gan y rhai sydd mewn gwaith, yn ddi-waith a'r rhai nad ydynt yn gallu gweithio.

4.3 Ceir tystiolaeth hefyd nad yw effaith y diwygiadau wedi'i gwasgaru'n gyfartal, gan eu bod yn effeithio'n arbennig ar rai cymunedau. Hefyd, roedd rhai canlyniadau niweidiol ac anfwriadol megis effaith y 'dreth ystafell wely' ar y sector tai cymdeithasol. Eglurodd y Gweinidog fod ffocws Llywodraeth Cymru ar gymryd camau gweithredu lliniarol, a chafodd Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ei nodi fel enghraifft o hyn. Er gwaethaf heriau cyllidebol, roedd ffocws Llywodraeth Cymru yn dal i fod ar helpu pobl a chymunedau i reoli newid a chadw pobl mewn cyflogaeth.

4.4 Gwnaeth Sheila Bearcroft y sylw bod dull Llywodraeth y DU o ddiwygio'r gyfundrefn lles yn ymosodiad ar y bobl dlotaf. Yn ei barn hi cafodd y dirwasgiad ei greu gan yr agwedd anghyfrifol tuag at risg mewn rhai rhannau o'r sector bancio, ond roedd costau'r dirwasgiad bellach yn cael eu hysgwyddo gan y tlotaf mewn cymdeithas, sefyllfa a oedd yn cael ei gwaethygu gan y diwygiadau lles.

4.5 Cyfeiriodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi at ymchwil ddiweddar a gyflawnwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam, a oedd yn dangos bod effaith y diwygiadau lles yn cael ei theimlo ym mhob cymuned, ond mai'r cymunedau mwyaf amddifadus sy'n cael eu taro galetaf.

4.6 Roedd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn cydnabod hefyd bod effaith y diwygiadau lles mewn rhai rhanbarthau'n effeithio ar ardaloedd ac nid dim ond aelwydydd.

4.7 Roedd sylwadau Derek Walker yn canolbwyntio ar gynhwysiant digidol. Pwysleisiodd fod llawer o'r offer cyllidebol, ynghyd â phrosesau ymgeisio am swyddi a budd-daliadau, yn symud yn gynyddol tuag at bresenoldeb ar-lein, gan wneud bywyd yn anos byth i'r rhai sydd wedi'u hallgau o'r amgylchedd digidol. Cyfeiriodd at raglen sy'n cael ei rhedeg gan Ganolfan Cydweithredol Cymru sydd wedi helpu 50,000 o bobl hyd yma gyda chynhwysiant digidol ac wedi cael effaith drawsnewidiol. Roedd pryder bod y rhaglen hon i fod i ddod i

ben ym mis Mawrth ac ynghylch yr effaith y gallai hyn ei chael ar adeg mor dyngedfennol.

4.8 Cydnabu'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi y sylwadau a wnaed gan Derek Walker ac roedd yn ymwybodol o'r rhaglen. Mae cyfarfod yn yr arfaeth rhwng y Gweinidog a swyddogion ac mae'r Gweinidog wedi gofyn am werthusiad o'r rhaglen.

4.9 Canmolodd Peter Hughes ansawdd y papur yn yr ystyr ei fod yn nodi'r materion allweddol yn eglur iawn. Pwysleisiodd rôl bwysig cyngor ynghylch dyledion a chymorth gyda thai o ran mynd i'r afael yn fedrus â rhai materion.

4.10 Dywedodd Iestyn Davies na ellir gwadu beth yw tarddiad y broblem a chanlyniadau'r diwygiadau, ond mai'r her oedd adnabod pa gamau gweithredu ymarferol y gellir eu cymryd. Cyfeiriodd at rôl Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop o ran gweithredu fel sbardun ar gyfer newid yn y cymunedau mwyaf amddifadus. Dywedodd y gellid ystyried llwyddiannau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a bod gwahaniaeth gwirioneddol rhwng lliniaru ac adfer. Dywedodd fod y Pwyllgor Rheoli Rhaglenni'n gwneud gwaith i ddeall yn well pam fod canlyniadau mewn rhai ardaloedd a dargedir gan y Cronfeydd Strwythurol yn fwy cadarnhaol nag mewn eraill. Dywedodd ei bod yn bwysig peidio â cholli ffocws, oherwydd o ystyried pwysau cyllidebol cyfredol; bydd buddsoddi mewn lliniaru'n gadael llai o le i fuddsoddi yn y materion strwythurol hirdymor. Roedd y 'cost cyfle' hwn yn amlygu pwysigrwydd gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gref. Crybwyllodd hefyd bod graddau rhagarweiniol gwaith gweithgynhyrchu'n aml yn gallu bod y cam cyntaf ym myd gwaith i rai pobl.

4.11 Dywedodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi fod gan gyllid a ddosberthir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ran hollbwysig i'w chwarae o safbwynt mynd i'r afael â rhai o'r materion strwythurol hirdymor. Tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at y ffaith bod y gostyngiad mewn gwariant gan ddefnyddwyr yn effeithio ar y sector busnesau bychain yn y cymunedau hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y diwygiadau lles. Crybwyllodd y Gweinidog ymchwil gan Brifysgol Sheffield Hallam, sydd wedi dadansoddi'r effaith ar fusnesau bychain ac aelwydydd.

4.12 Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y byddai'r Cyngor yn cael diweddariadau pellach ar y gwaith ar y diwygiadau lles wrth iddo ddatblygu.

| |
|---|
| **GWEITHREDU:** Swyddogion i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ynghylch y gwaith ar liniaru effaith y diwygiadau lles. |

## 5. <u>Diweddariad a dangosyddion economaidd</u>

5.1 Gofynnodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth gyflwyno'r eitem nesaf. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ei bod wedi gofyn i Brif Economegydd (Jonathan Price) a Phrif Ystadegydd (Glyn Jones) Llywodraeth

Cymru gynnal adolygiad o ddangosyddion economaidd priodol i Gymru. Eglurwyd ei bod yn bwysig bod ag ystod o ddangosyddion priodol, yn enwedig yng nghyd-destun pwerau cyllidol newydd mewn perthynas â datganoli rhai trethi penodol a benthyca. Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod wedi ysgrifennu at yr holl ACau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y gwaith hwn ac y byddai Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth hefyd yn ymgynghori â Chadeiryddion y Panelau Sector. Pwrpas y drafodaeth oedd cael barn gan y Cyngor.

5.2 Gofynnodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i Jonathan Price ddweud ychydig eiriau am y sefyllfa economaidd yn gyffredinol, cyn troi at y papur ar ddangosyddion economaidd.

5.3 Dywedodd Jonathan Price:

- fod y data diweddaraf ynghylch y farchnad lafur yn dangos bod Cymru'n symud yn unol â sefyllfa'r DU gyfan fwy neu lai;
- bod data misol, megis data ynghylch y farchnad lafur, yn gallu bod yn gyfnewidiol tu hwnt ac felly ei bod yn bwysig myfyrio ynghylch tueddiadau yn y tymor canolig a hirach i gael darlun llawn;
- bod cyflogaeth wedi tyfu'n gyflymach yng Nghymru nag yn y DU ers datganoli a bod y mwyafrif llethol o'r swyddi hyn wedi bod mewn galwedigaethau â chyflog gwell, yn y sector preifat;
- bod anweithgarwch wedi bod yn cynyddu, ac er y byddai hyn yn achosi pryder fel arfer, efallai mai cyfnewidioldeb yn y data yw'r achos;
- bod twf cyflogau'n dal i fod yn wan, ac nad yw'r adferiad yn cael ei adlewyrchu mewn pecynnau cyflogau eto ar y cyfan;
- bod y gyfradd twf ar hyn o bryd yn iach, ond bod yr adferiad hwn yn dal i fod yr adferiad arafaf ar ôl dirwasgiad ers y 1920au.

5.4 Cyflwynodd Jonathan Price y papur ar ddangosyddion economaidd ac eglurodd mai'r tri chasgliad ynddo oedd:

- *mae angen basged o ddangosyddion lefel uchel ar gyfer monitro'r economi.* Nid yw'r un dangosydd unigol yn darparu darlun cynhwysfawr. Eglurodd fod GYC, sy'n aml yn cael ei ddyfynnu fel mesur o gynnydd, yn dioddef nifer o gyfyngiadau gan gynnwys i ba raddau y dylanwadir arno gan y boblogaeth ddibynnol (sy'n gymharol uchel yng Nghymru) ac allbynnau dinasoedd mwy (y mae ychydig ohonynt i'w cael yng Nghymru). Am y rhesymau hyn mae angen ystyried basged fach o ddangosyddion a fyddai'n cynnwys:
    - GYC y pen
    - Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario y pen
    - Y gyfradd cyflogaeth
    - Cyfraddau tlodi

- Enillion cyfartalog
- Cyfoeth y pen.

- *mae cynhyrchu data GYC chwarterol yn ddichonadwy ond nid yw'r rhesymeg dros hynny'n gryf.* Eglurwyd fod data GYC chwarterol yn gallu bod yn gyfnewidiol a chael ei ddiwygio. Gall y cyfnewidioldeb hwn fod yn gyfrifol am y diffyg gweinyddiaethau datganoledig eraill a gwladwriaethau ffederal sy'n cynhyrchu data GYC chwarterol. Ac eithrio'r Alban (ac o bosibl Gogledd Iwerddon yn y dyfodol agos), roedd y diffyg data GYC chwarterol ar gyfer Länder yr Almaen, gwladwriaethau ffederal unigol yr Unol Daleithiau neu daleithiau Canada yn amlwg. Ar ben hynny, nodwyd fod ysgogiadau polisi Llywodraeth Cymru yn tueddu i fod yn ysgogiadau ar gyfer cyflenwyr sy'n gweithredu dros y tymor hirach (sgiliau, cymorth busnes, ac isadeiledd). O ystyried diffyg ysgogiadau polisi byrdymor, nid oedd y rhesymeg dros fesur byrdymor megis GYC y pen ym mhob chwarter yn cael ei ystyried yn arbennig o addas. Teimlwyd lle mae angen i Lywodraeth Cymru ymateb i heriau byrdymor y byddai gwybodaeth fisol am y farchnad lafur yn fwy priodol na data GYC chwarterol.

- *mae pwerau newydd o ran treth a benthyca'n golygu bod angen adolygu'r gofynion am ddata a dadansoddi yn gyson.* Eglurwyd y dylid parhau i adolygu'r set o ddangosyddion ac unrhyw ofynion cysylltiedig ar gyfer data a dadansoddiadau pan fydd Llywodraeth Cymru'n cael pwerau ychwanegol. Yn y cyd-destun hwn trafodwyd priodoldeb model amlbwrpas o'r economi'n gyffredinol. Eglurwyd fod ymchwil drylwyr wedi cael ei chwblhau i'r mater hwn tua 10 mlynedd yn ôl gan academyddion ac mai'r casgliad oedd y byddai model o'r economi'n gyffredinol yn annhebygol o fod yn ddigon cadarn i gefnogi gwaith datblygu polisi. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys y ffaith bod economi Cymru ac economi gweddill y DU wedi'u hintegreiddio'n agos, gan ei gwneud yn anhygoel o anodd modelu economi Cymru'n gywir. Awgrymwyd y gallai hwn fod yn faes ar gyfer ymchwil bellach, o bosibl trwy gyllido nifer o ysgoloriaethau ymchwil ar gyfer doethuriaeth.

5.5 Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth y byddai'n croesawu barn y Cyngor am y dull awgrymedig.

5.6 Dywedodd Paul Byard y byddai'n ddefnyddiol bod â set o ddangosyddion economaidd sy'n debycach i set flaengar o ddangosyddion perfformiad allweddol. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i weledigaeth ar gyfer y dyfodol gael ei chysylltu â'i goblygiadau. Nododd enghraifft o weledigaeth i symud o sylfaen weithgynhyrchu o 13.4% o gyflogaeth i 25% a deall o'r dangosyddion beth fyddai goblygiadau hynny. Roedd yn dadlau y byddai dull o'r fath yn ein galluogi i feincnodi yn erbyn economïau eraill.

5.7 Dywedodd Martin Mansfield ei bod yn iawn ystyried basged o ddangosyddion ond bod mesur effaith penderfyniadau Llywodraeth y DU ar yr economi yn

bwysig hefyd. O ran canlyniadau, dywedodd y gellid dwyn y budd mwyaf trwy ganolbwyntio ymyriadau ar yr ardaloedd hynny â'r amddifadedd mwyaf, yn hytrach na gwasgaru ffocws ymyriadau ar sail Cymru gyfan.

5.8 Dywedodd Iestyn Davies na fyddai ailweithio dangosyddion o fath tebyg i GYC yn arbennig o ddefnyddiol. Adleisiodd bwynt Paul Byard am yr angen i fod yn flaengar; gan adlewyrchu'r ffaith bod angen i'r set o ddangosyddion fod yn debyg i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gwybodaeth reoli. Gan gymryd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel arweiniad o ran y Gymru a garem h.y. un gadarnach, gryfach, iachach, pwysleisiodd y byddai set gref o ddangosyddion yn cynorthwyo'r Cyngor yn ei drafodaethau, o ystyried y byddai'n darparu rhesymeg gryfach ar gyfer penderfyniadau na thystiolaeth anecdotaidd neu ddata cyfyngedig o arolygon a grynhowyd gan sefydliadau a gynrychiolir ar y Cyngor.

5.9 Dywedodd Iestyn Davies hefyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r dangosyddion yn ystyried economïau rhanbarthol Cymru, er enghraifft o ran deall tlodi trwy fesur argaeledd prydau ysgol am ddim mewn ardaloedd lleol penodol, nifer yr oriau a weithir fel modd i archwilio materion cynhyrchiant a deall anweithgarwch yn well trwy ei ddadansoddi yn ôl oedran a rhyw. Dywedodd hefyd fod angen gwneud defnydd gwell o wybodaeth mewn amser real megis ffurflenni TAW. Crybwyllodd hefyd ddigwyddiad ym mis Tachwedd a fyddai'n canolbwyntio ar ddangosyddion economaidd.

5.10 Gofynnodd Graham Morgan a fyddai'n werth ystyried materion megis masnach dramor a nifer y busnesau newydd a'r busnesau sy'n dod i ben yn y set o ddangosyddion. Dywedodd hefyd fod achos dros fesur materion o ran 'ffordd o fyw' sy'n ffactor sy'n dylanwadu ar adleoli busnesau i Gymru.

5.11 Cydnabu Jonathan Price y pwyntiau a godwyd. Dywedodd fod peth wmbredd o ddata a allai fod ar gael, ond bod yn rhaid i ddiben yr adolygiad ganolbwyntio ar set ddata lefel uchel. Dywedodd ei bod yn bosibl mai gwerth cyfyngedig fyddai i ystyried gwybodaeth mewn amser real megis ffurflenni TAW am y rhesymau a nodwyd yn gynharach, sef bod ysgogiadau polisi Llywodraeth Cymru'n gweithredu dros y tymor canolig a hirach ac felly na fyddai seilio penderfyniadau polisi ar ddangosyddion byrdymor yn briodol o bosibl.

5.12 Dywedodd David Morgan ei bod yn bwysig i'r dangosyddion fod yn rhai blaengar.

5.13 Roedd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd edrych ymlaen wrth wneud gwaith modelu economaidd. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n croesawu mwy o wybodaeth am y digwyddiad ym mis Tachwedd y cyfeiriodd Iestyn Davies ato. Dywedodd y Gweinidog y byddai mwy o waith yn cael ei wneud i roi cig ar yr asgwrn o ran y set o ddangosyddion economaidd ac y byddai'n ddefnyddiol pe gellid defnyddio'r Cyngor i brofi syniadau yn hyn o beth.

5.14 Roedd Iestyn Davies yn croesawu ymgysylltiad parhaus ynghylch y mater hwn a dywedodd y byddai'n fodlon bod yn rhan o lunio unrhyw bapurau yn y dyfodol.

5.15 Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y gallai dirprwyaeth o'r Cyngor gael cyfarfod gyda Jonathan Price i fwydo'u meddyliau am unrhyw waith pellach.

5.1 Daeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth â'r drafodaeth i ben a nododd gytundeb y Cyngor â'r argymhellion allweddol yn y papur (isod) gan nodi y bydd y rhain yn cael eu goleuo ymhellach gan y drafodaeth rhwng Aelodau'r Cyngor a Jonathan Price:

A) Byddai'n fuddiol datblygu a chyhoeddi basged fechan o ddangosyddion i fonitro perfformiad economi Cymru mewn modd cytbwys gan osgoi canolbwyntio'n ormodol ar unrhyw agwedd benodol.
B) Nid oes unrhyw ofyniad polisi i gael dangosydd GYC chwarterol i Gymru, sy'n debygol o gael ei ddiwygio'n helaeth beth bynnag. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn isaf o ran costau ar gyfer datblygu dangosydd o'r fath yn arwain at ychydig mwy o gostau, a dylai'r penderfyniad terfynol adlewyrchu barn rhanddeiliaid.
C) Dylai'r gofynion ar gyfer data ac adnoddau dadansoddi pellach gael eu hadolygu'n gyson wrth i Lywodraeth Cymru gael pwerau newydd. Yn arbennig, mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil i weld a yw datblygiadau ym maes modelu economaidd yn awgrymu y dylid diwygio'r casgliad cynharach bod datblygu model amlbwrpas o economi Cymru yn annhebyg o fod yn gost-effeithiol.

**GWEITHREDU:** Swyddogion i drefnu bod cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng rhai aelodau o'r Cyngor a Jonathan Price i drafod y gwaith ar ddangosyddion economaidd.

## 6. Ffyrdd o weithio yn y dyfodol (Cyngor Adnewyddu'r Economi)

6.1 Atgoffodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y Cyngor fod trafodaeth dda am ffyrdd o weithio yn y dyfodol wedi cael ei chynnal yn y Cyngor blaenorol ym mis Mehefin. Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo ffordd ymlaen a oedd yn cynnwys aildrefnu aelodaeth gweithgor y Cyngor gyda Chylch Gorchwyl diwygiedig.

6.2 Roedd Martin Mansfield yn cydnabod pwysigrwydd cyfaddawd, a nododd nad oedd yr holl bwyntiau a godwyd gan TUC Cymru wedi cael eu derbyn yn llawn, ond bod TUC Cymru serch hynny'n gwbl ymrwymedig i agenda ar y cyd ar gyfer y Cyngor ac yn edrych ymlaen at ffurfio gweithgor mwy rhagweithiol a fyddai'n darparu cyfle i adolygu'r aelodaeth.

6.3 Adleisiodd Paul Byard sylwadau Martin Mansfield a datganodd fod gan Commerce Cymru farn gadarnhaol am y cynigion ar gyfer gweithgor wedi'i aildrefnu.

6.4 Dywedodd Tracey Burke mai'r camau nesaf oedd cytuno ar aelodaeth y gweithgor wedi'i aildrefnu. Roedd TUC Cymru wedi ymateb yn ffurfiol gan roi eu cytundeb ac roedd yn disgwyl am ymateb ffurfiol tebyg gan Commerce Cymru.

| |
|---|
| **GWEITHREDU:** Commerce Cymru i roi eu haelodaeth o'r gweithgor er mwyn cytuno'n ffurfiol ar hynny. |

**7. Unrhyw fater arall**

7.1 Estynnodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wahoddiad i'r Cyngor godi unrhyw fater arall.

7.2 Dywedodd Martin Mansfield fod y papur i'w nodi gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn dwyn y teitl '*Rôl Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr Economi*', yn dangos ôl meddwl gofalus o ran amlygu'r GIG fel cyfrannwr pwysig at yr economi ac yn fwy eang, effaith economaidd y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Awgrymodd y byddai'r dull hwn o fudd i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

7.3 Estynnodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wahoddiad i'r Cyngor drafod yr economi'n fwy eang o ran sut yr oedd y Cyngor yn teimlo bod Cymru'n perfformio ar hyn o bryd a chyfleoedd a heriau yn y dyfodol.

7.4 Dywedodd Martin Mansfield, er bod arwyddion o adferiad a thwf economaidd, nad oedd y rhain yn bwydo i mewn i becynnau cyflog. Gan hynny roedd pryder enfawr o hyd ynghylch cost byw, tlodi mewn gwaith a thangyflogaeth. Amlygwyd y ffaith bod tangyflogaeth yn fater amlweddog a allai gynnwys cyflog isel, oriau annigonol ac anallu gan unigolion i gamu ymlaen o swyddi ar lefel mynediad, er eu bod o bosibl wedi caffael y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad i gamu ymlaen. Eglurwyd fod y diffyg datblygiad hwn i bob pwrpas yn creu tagfa ac yn effeithio ar gyfleoedd gyrfa, gan fod swyddi ar lefel mynediad yn cael eu llenwi gan bobl y gwrthodir cyfle iddynt gamu ymlaen gyda hynny yn ei dro'n cyfyngu ar argaeledd swyddi ar lefel mynediad i'r rhai ac arnynt eu hangen.

7.5 Dywedodd Graham Morgan fod chwyddiant cyflogau'n araf ymlithro i rai sectorau a bod arolwg diweddar gan y Siambrau wedi dangos gostyngiad mewn archebion a gwerthiant tramor. Mae'n bosibl bod rhywfaint o hyn wedi deillio o effaith costau ynni cynyddol a'r gyfradd gyfnewid. Roedd peth pryder hefyd ynghylch diffyg ansawdd eiddo masnachol yng nghanolbarth Cymru, gan gydnabod bod hwn yn fater y mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu i fynd i'r afael ag ef.

7.6 Dywedodd Emma Watkins fod hyder cynyddol ymhlith busnesau ynghyd ag arwyddion eglur o adferiad economaidd. Roedd pryder bod cyflymder yr adferiad yn arafach yng Nghymru nag mewn rhai rhannau eraill o'r DU a'i fod yn cael ei ysgogi'n bennaf gan y sector gwasanaethau. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sgiliau lefel uchel ac roedd rhai o'r materion a godwyd gan Martin Mansfield ynghylch tangyflogaeth yn cael eu rhannu yn nadansoddiad

Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, er y gall y datrysiadau polisi awgrymedig fod yn wahanol. Yn fwy penodol, codwyd achos o fusnes yn disgwyl wyth mis am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch cymorth i fuddsoddi. Nodwyd fod adborth busnesau ar gyflymder ac effeithlonrwydd proses ystyried Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol ar y cyfan, ond y gallai'r oedi yn yr achos hwn fod wedi peryglu penderfyniad pwysig ynghylch buddsoddi. Dywedwyd fod rhai busnesau'n ystyried codiadau cyflog ond y byddai cynhyrchiant yn effeithio ar hyn.

7.7 Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol a James Price fod Adran yr Economi'n rhoi pwys mawr ar ei gallu i ymateb yn gyflym ac yn effeithlon. Anogwyd y Cyngor i gyflwyno unrhyw enghreifftiau pellach yr oeddent yn ymwybodol ohonynt lle'r oedd oedi annerbyniol wedi bod cyn i Lywodraeth Cymru roi penderfyniad i fusnesau, er mwyn gallu cymryd camau priodol i gyflymu pethau. I'r perwyl hwn, cytunwyd y byddai manylion cyswllt James Price yn cael eu dosbarthu, fel bod unrhyw dystiolaeth o oedi gan Lywodraeth Cymru yn gallu cael ei chodi gydag ef.

| **GWEITHREDU:** Swyddogion i ddosbarthu manylion cyswllt James Price i aelodau'r Cyngor. |
|---|

7.8 Amlygodd David Morgan bwysigrwydd seilwaith strategol allweddol i economi Cymru. Pwysleisiodd ffordd liniaru'r M4 a thrydanu rheilffyrdd fel enghreifftiau allweddol.

7.9 Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod buddsoddiadau o'r fath yn y seilwaith strategol yn hollbwysig ar gyfer ffyrdd a rheilffyrdd ac yn dwyn goblygiadau cadarnhaol sylweddol i'r diwydiant adeiladu o ran yr effaith lluosydd.

7.10 Pwysleisiodd Graham Morgan bwysigrwydd sgiliau i sicrhau bod gan Gymru'r galluedd, a'i bod yn meddu ar y capasiti i ymateb i fuddsoddiadau yn y seilwaith strategol heb orddibyniaeth ar weithwyr mudol a chrybwyllodd gyfleoedd o ran y gadwyn gyflenwi hefyd.

7.11 Pwysleisiodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y gwaith a oedd wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r Wylfa o ran effeithiau ar y gadwyn gyflenwi a'r gofynion o ran sgiliau, fel tystiolaeth o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ar gyfer buddsoddiadau pwysig a sut y gellid defnyddio hyn fel model ar gyfer prosiectau eraill sy'n ymwneud â seilwaith.

7.12 Dywedodd Peter Hughes fod dyfodol y farchnad dai i'w weld yn fwy gobeithiol na 12 mis yn ôl – gyda mwy o drafodion yn digwydd mewn sector sy'n ddarostyngedig i reoleiddio cynyddol.

7.13 Adleisiodd Robert Lloyd Griffiths sylwadau Emma Watkins am yr hyder sy'n dychwelyd i fusnesau. Dywedodd fod nifer o ganfyddiadau ymchwil diweddar wedi dangos bod hyder busnesau'n uwch yn awr nag y mae wedi bod ar unrhyw adeg yn y chwe i saith mlynedd ddiwethaf.

7.14 Dywedodd James Price ein bod yn gweld cynnydd mewn prosiectau da a gofynnodd i'r Cyngor helpu Adran yr Economi i gyflawni ar gyfer byd busnes mewn ffordd amserol.

7.15 Amlygodd Paul Byard effaith prisiau ynni uchel, prinder sgiliau a diffyg prentisiaid a pheirianwyr sy'n trosi'n ddiffyg buddsoddi mewn technolegau newydd. Dywedodd ein bod am ei gwmnïau gyflwyno cynhyrchion newydd i'r farchnad ond bod oedi'n digwydd wrth arloesi a bod angen rhoi sylw i hyn. Awgrymodd fod rhai cyfyngiadau ar yr hyn y gellid ei gyflawni o ran ailgydbwyso'r economi dan y fframwaith economaidd cyfredol. Cyfeiriodd at dystiolaeth a oedd yn awgrymu y gallai cynnydd o 100,000 mewn cyflogaeth yn y diwydiant gweithgynhyrchu arwain at 400,000 o swyddi pellach yn y gadwyn gyflenwi a dywedodd fod angen o leiaf 5,000 yn ychwanegol o brentisiaid gweithgynhyrchu y flwyddyn dros y 10 mlynedd nesaf.

7.16 Cydnabu Iestyn Davies fod hon ar y cyfan yn drafodaeth obeithiol a chadarnhaol am yr economi. Dywedodd ei bod yn amlwg bod heriau'r dirwasgiad ar y naill law ac adferiad a thwf ar y llall yn wahanol. Yn arbennig, dywedodd fod sgiliau'n dal i fod yn her ganolog o ran yr angen i baru sgiliau â thwf a sgiliau â gofynion busnesau yn erbyn y cefnlen o doriadau cyllidebol.

7.17 Diolchodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i'r aelodau am drafodaeth ddiddorol a dywedodd fod llawer o'r materion a amlygwyd, yn enwedig darparu sgiliau, yn deilwng o gael eu trafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

| |
|---|
| **GWEITHREDU:** Swyddog i gomisiynu papur ar sgiliau, yr adferiad a thwf i'w gyflwyno a'i drafod yng nghyfarfod nesaf Cyngor Adnewyddu'r Economi ym mis Chwefror. |

7.18 Daeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth â'r cyfarfod i ben trwy ddiolch i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau. Nodwyd fod y papur i'w nodi, Adroddiad Diweddariad Blynyddol gan yr Adran Addysg a Sgiliau wedi cael ei anfon yn agos iawn at ddyddiad y cyfarfod ac felly bod croeso i aelodau'r Cyngor gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar hwn.